Llywodraeth y DU

# DIGON.

Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) yn argyfwng cenedlaethol.

Y llynedd, profodd un o bob wyth o fenywod gamdriniaeth ddomestig, ymosodiad rhywiol neu stelcio.

Dyna ichi:

- 2.2 miliwn o fenywod yn profi camdriniaeth ddomestig
- 739,000 o fenywod yn profi ymosodiad rhywiol
- 984,000 o fenywod yn profi stelcio

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig genhadaeth o haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn degawd. Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd strategaeth ar sut y bydd yn gwneud hyn, a honno'n cynnwys rhaglen hirdymor o ymgyrchoedd newid ymddygiad.

**Ymgyrch DIGON**

Mae DIGON wedi'i gynllunio i helpu i atal trais yn erbyn menywod a merched. Cafodd ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos ag arbenigwyr yn y sector ac mae'n cael ei ategu gan ddirnadaeth drylwyr o'r gynulleidfa a phrofion.

**Mae i'r ymgyrch dri llinyn:**

- Herio troseddwyr
- Ymateb i ddioddefwyr
- Addysgu pobl ifanc

**Pam mae partneriaid yn bwysig**

Mae rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched yn genhadaeth foesol i bob un ohonon ni a bydd angen ymdrech gan y gymdeithas gyfan i'w gyflawni. Mae gan bartneriaid bŵer unigryw i roi hwb i gyrhaeddiad ac effaith ymgyrch a bydd pobl yn ymgysylltu â'r ymgyrch pan fo'n dod gan sefydliadau maen nhw'n eu nabod, eu defnyddio ac yn ymddiried ynddyn nhw.

Trwy weithio gyda ni i gyrraedd eich cwsmeriaid, eich defnyddwyr a'ch staff, gall eich sefydliad chi ein helpu i gyflawni newid parhaol yn yr agweddau a'r ymddygiadau sy'n sail i gamdriniaeth.

Llywodraeth y DU

**Ynglŷn â'r pecyn yma i bartneriaid**

Rydyn ni wedi dylunio'r pecyn yma i'w gwneud hi'n hawdd cefnogi ymgyrch DIGON. Gall ein deunyddiau gael eu defnyddio mewn mannau cyhoeddus a mewnol, a gallwch ychwanegu eich logo chi'ch hun.

**Mae'r pecyn yn cynnwys:**

- Delweddau i'r cyfryngau cymdeithasol ac asedau digidol
- Posteri
- Cynhyrchion cyfathrebu mewnol, gan gynnwys deunyddiau blog ar gyfer mewnrwydau, baneri gwe a llofnodion ebost

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau, cysylltwch â'n tîm ymgyrchu.

**Teclyn Rhyngweithiol**

I helpu unigolion i adnabod mathau o ymddygiad camdriniol sydd heb gael eu deall mor dda, rydyn ni wedi datblygu teclyn rhyngweithiol o'r enw 'Croesi'r Llinell'. Mae'n cyflwyno cyfres o senarios ac yn gofyn i'r cyfranogwyr bwyso a mesur a ydy'r ymddygiad yn croesi'r llinell. Mae'n rhoi adborth unigol i'r atebion ac yn cyfeirio at ragor o adnoddau, megis gwasanaethau cymorth proffesiynol.

Gall 'Croesi'r Llinell' gael ei ddefnyddio mewn deunyddiau hyfforddi ac fel galwad i weithredu ar draws eich cyfathrebiadau. Gallwch ei gyrchu drwy ddilyn y ddolen yma trwy wefan ymgyrch DIGON.

**Diolch yn fawr**

Diolch am ymwneud â'r pecyn yma i bartneriaid ac ystyried partneru gyda ni ar DIGON.

Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu gwlad lle mae menywod a merched yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd.

Tîm ymgyrch DIGON.